# Eich barn am Raglen Llywodraeth Cymru - Cyfuno

Gofynnwyd i Amgueddfa Cymru gan Is-adran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Llywodraeth Cymru (MALD) ymgymryd ag ymchwil fel rhan o werthusiad parhaus o'r rhaglen *Cyfuno: Creu Cyfleoedd drwy Ddiwylliant*. Nod yr ymchwil yw cael barn a phrofiadau Cydlynwyr Cyfuno a sefydliadau partner i fesur bodlonrwydd gyda'r rhaglen Cyfuno a thynnu sylw at fannau lle y bydd angen gwelliannau, o bosibl. Amcanion yr ymchwil yw:

- mesur bodlonrwydd gyda'r rhaglen
- ceisio sylwadau ar feysydd sy'n gweithio'n dda
- ceisio sylwadau ar feysydd i'w gwella

Bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio canfyddiadau'r ymchwil hon i helpu i flaenoriaethu a datblygu meysydd ar gyfer newid.

Fel rhan o'r ymchwil, bydd cyfweliadau'n cael eu cynnal gyda sampl fach o fudiadau partner sy'n cymryd rhan mewn rhwydwaith Cyfuno.

Mae eich barn ar y rhaglen Cyfuno a'r dull partneriaeth y mae'n ei gefnogi yn wirioneddol werthfawr i ni. Mae eich sefydliad wedi ei nodi fel partner gan Gydlynydd Cyfuno. Fel rhan o'r gwerthusiad parhaus o'r rhaglen Cyfuno, mae Cydlynwyr Cyfuno'n rhannu enwau sefydliadau partner gyda MALD ac Amgueddfa Cymru. Fodd bynnag, nid yw Llywodraeth Cymru nac Amgueddfa Cymru'n cadw manylion cyswllt unigolion sydd wedi'u lleoli mewn sefydliadau partner.

Mae'r gwerthusiad parhaus yn cael ei gydlynu gan Amgueddfa Cymru. Mae'r ymchwil yn cael ei rheoli gan yr ymchwilydd yn Amgueddfa Cymru gyda chymorth gan ymchwilwyr wedi'u lleoli yng Ngwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi Llywodraeth Cymru. Mae Amgueddfa Cymru wedi nodi nifer fechan o sefydliadau partner y maent yn dymuno'u gwahodd i gymryd rhan yn yr ymchwil. Rydych chi wedi derbyn y gwahoddiad hwn am gyfweliad gan Gydlynydd Cyfuno ar gais Amgueddfa Cymru am nad oes ganddynt fynediad at eich manylion cysylltu.

Bydd yr ymchwilydd yn Amgueddfa Cymru ac ymchwilwyr o Dîm Ymchwil Dyfodol Cynaliadwy Llywodraeth Cymru yn y Gwasanaeth Gwybodaeth a Dadansoddi yn casglu a dadansoddi data o'r ymchwil hon. Ni fydd modd i Gydlynwyr Cyfuno gael mynediad at unrhyw ddata a gesglir.

Llywodraeth Cymru yw'r rheolwr data ar gyfer yr ymchwil. Bydd y tîm ymchwil yn tynnu data personol allan cyn ysgrifennu'r adroddiad ac ni fydd yn darparu data a fydd yn galluogi eich adnabod yn bersonol, i eraill o fewn Llywodraeth Cymru, oni fyddwch yn gofyn i ni wneud hynny.

Bydd yr wybodaeth a gesglir yn ystod y prosiect yn cael ei chynnwys mewn adroddiad a gaiff ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru.

Mae cymryd rhan yn yr ymchwil hon yn gwbl wirfoddol. Fodd bynnag, mae eich barn a'ch profiadau'n bwysig er mwyn helpu i oleuo polisïau Llywodraeth Cymru.

Os hoffech chi gymryd rhan neu ganfod rhagor am yr ymchwil hon, cysylltwch â'r ymchwilydd yn Amgueddfa Cymru, Polly Dempsey, drwy:

- E-bost: polly.dempsey@museumwales.ac.uk; neu
- Ffôn: 029 2057 3115.

## HYSBYSIAD PREIFATRWYDD

### Pa ddata personol sydd gennym a ble ydym ni'n cael yr wybodaeth hon?

Diffinnir data personol o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) fel 'unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud ag unigolyn adnabyddadwy y gellir ei nodi'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol drwy gyfeiriad at ddynodwr'.

Nid oes gan Amgueddfa Cymru a Llywodraeth Cymru gyfeiriadau e-bost sefydliadau partner. Mae Amgueddfa Cymru wedi gwneud cais i Gydlynwyr Cyfuno weithredu fel cyfryngwyr a gwahodd sefydliadau partner sy'n gweithredu o fewn eu rhwydweithiau hwy i gymryd rhan yn yr ymchwil. Nid yw Cydlynwyr Cyfuno'n cynnal yr ymchwil ac ni fydd modd iddynt gael gweld unrhyw ddata a gaiff ei gasglu.

I gymryd rhan yn yr ymchwil, anfonwch e-bost at y pwynt cyswllt a ddarparwyd ar gyfer Amgueddfa Cymru a fydd yn ychwanegu eich sefydliad at y sampl. Fel rhan o'r ymchwil, mae'n bosibl y byddwn yn gofyn am rywfaint o wybodaeth bersonol (e.e. enw a rôl) yn y cyfweliad er mwyn helpu i roi cyd-destun i'ch ymatebion. Rydym yn dymuno recordio cyfweliadau ond byddwn yn gofyn i chi cyn y cyfweliad os ydych chi'n hapus i gael eich recordio. Mae'n bosibl y byddwch chi hefyd yn dewis darparu data personol drwy eich ymatebion i gwestiynau'r cyfweliad. Dim ond i ddibenion y prosiect ymchwil hwn y bydd y tîm ymchwil yn defnyddio cyfeiriadau e-bost a rhifau ffôn.

Os byddwch yn dewis darparu data personol ychwanegol fel rhan o'r ymchwil ni fyddwn yn ceisio canfod pwy ydych o'r ymatebion y byddwch yn eu darparu, na

chwaith yn ceisio cysylltu pwy ydych â’r ymatebion hynny. Bydd unrhyw recordiad o'r cyfweliad yn cael ei ddileu yn dilyn trawsgrifio. Bydd unrhyw ddata personol a ddarparwyd gennych yn ystod y cyfweliad yn cael ei ddileu o'r trawsgrifiad cyn y gwaith dadansoddi.

Os byddwch yn codi ymholiad neu gŵyn ac yn darparu data personol sy'n gofyn am ymateb, bydd yr ymchwilydd yn anfon y cais at y swyddog polisi perthnasol YN UNIG. Bydd yr ymchwilydd wedyn yn dileu'r wybodaeth hon o'r data ymchwil.

### Beth yw'r sail gyfreithlon dros ddefnyddio eich data?

Sail gyfreithlon prosesu gwybodaeth yn yr ymarfer casglu data hwn yw ein tasg gyhoeddus; hynny yw, arfer ein hawdurdod swyddogol i ymgymryd â rôl a swyddogaethau craidd Llywodraeth Cymru.

Mae cymryd rhan yn gwbl wirfoddol. Mae astudiaethau ymchwil fel hyn yn bwysig i Lywodraeth Cymru o ran casglu gwybodaeth a thystiolaeth weithredol am ei gallu i gyflawni blaenoriaethau'r llywodraeth. Bydd yr wybodaeth a gesglir yn yr ymchwil hon yn helpu swyddogion Llywodraeth Cymru i wneud penderfyniadau ynghylch y rhaglen Cyfuno.

### Pa mor ddiogel yw eich data personol?

Caiff data personol a ddarperir i Amgueddfa Cymru a Llywodraeth Cymru ei gadw ar weinyddion diogel. Ar gyfer y prosiect hwn mae ffolder wedi cael ei greu, a dim ond y tîm ymchwil ei hun sydd yn cael mynediad ato. Bydd eich manylion cysylltu ac unrhyw ddata personol y byddwch yn dewis ei ddarparu’n cael ei storio yn y ffolder cyfyngedig hwn. Ni fydd yr ymchwilwyr yn darparu unrhyw wybodaeth bersonol wrth adrodd canfyddiadau i’r tîm polisi.

Bydd y gwaith trawsgrifio ar gyfer yr ymchwil hon yn cael ei wneud gan Transcribe This. Bydd y ffeiliau sain yn cael eu trosglwyddo’n ddiogel i Transcribe This a byddant yn storio’r ffeiliau sain a’r trawsgrifiadau ar weinydd diogel.  Bydd Transcribe This yn dileu’r holl recordiadau sain a’r trawsgrifiadau ysgrifenedig o’u systemau erbyn mis Mai 2019. Bydd Amgueddfa Cymru’n dileu’r recordiad sain ar ôl derbyn y trawsgrifiad ysgrifenedig gan Transcribe This.

Gellir cael rhagor o wybodaeth am ddiogelwch data a Transcribe This yma:
http://www.transcribe-this.com/data-security/

Bydd yr holl ddata a gesglir drwy'r ymchwil hon yn cael ei adrodd mewn fformat dienw. Ni fydd yn cynnwys eich manylion cysylltu a bydd unrhyw wybodaeth a allai

achosi i chi gael eich adnabod mewn atebion penagored yn cael ei dileu. Bydd y tîm ymchwil yn defnyddio'r wybodaeth a gesglir i gynhyrchu adroddiad a fydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru. Ni fydd yr adroddiad hwn yn cynnwys unrhyw wybodaeth a allai gael ei defnyddio i ganfod pwy yw unigolion sydd wedi cymryd rhan.

## Pa mor hir ydyn ni'n cadw eich data personol?

Bydd y cwmni trawsgrifio allanol yn dileu'r data yn syth ar ôl cyflwyno'r trawsgrifiad o'r cyfweliad i Amgueddfa Cymru. Bydd yr ymchwilydd yn Amgueddfa Cymru ac ymchwilwyr o'r Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi yn tynnu unrhyw wybodaeth bersonol adnabyddadwy a gyflwynwyd gan ymatebwyr o fewn ychydig ddyddiau o dderbyn y trawsgrifiad o'r cyfweliad. Ni fyddwn yn cadw unrhyw wybodaeth bersonol gan sefydliadau partner y tu hwnt i'r pwynt hwn.

## Hawliau Unigolion

O dan GDPR, mae gennych chi'r hawliau a ganlyn mewn perthynas â'r wybodaeth bersonol a ddarperir gennych fel rhan o'r ymchwil hon:

- Cael mynediad at gopi o'ch data eich hun;
- Mynnu ein bod ni'n cywiro gwallau yn y data hwnnw;
- Gwrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu (mewn rhai amgylchiadau);
- I'ch data gael ei 'ddileu' (mewn rhai amgylchiadau); a
- Rhoi cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth sef ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

Dyma'r manylion ar gyfer cysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth: Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Swydd Gaer, SK9 5AF. Ffôn: 01625 545 745 neu 0303 123 1113. Gwefan: www.ico.gov.uk

## Rhagor o Wybodaeth

Os oes gennych chi gwestiynau pellach ynghylch sut bydd y data a ddarperir fel rhan o'r astudiaeth hon yn cael ei ddefnyddio gan Amgueddfa Cymru a Llywodraeth Cymru, neu os ydych chi'n dymuno arfer eich hawliau gan ddefnyddio'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, cysylltwch â:

- Kate Mulready (Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi, Llywodraeth Cymru)
  Ffôn: 0300 025 1481

E-bost: kathleen.mulready001@gov.wales

Gellir cysylltu â Swyddog Diogelu Data Llywodraeth Cymru yn:

- Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ; e-bost: DataProtectionOfficer@gov.wales.